



Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2026
Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams
Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd

Yn bresennol:		
Clare Jenkins (Cadeirydd)	(CJ)	Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam (gadawodd am 14:20)	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Huw David (gadawodd y cyfarfod am 13:45)	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Catherine Purcell	(CP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion)
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Yn Bresennol:		
Graham Brown	(GB)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Sgrinio Cyffredinol (ar gyfer eitem 3.4)
Nathan Jones	(NJ)	Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Materion Corfforaethol ar ran Zoe Pietrzak
Heather Lewis	(HL)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Sgrinio Cyffredinol (ar gyfer eitem 3.4)
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Liam Scott	(LS)	Darpar Aelod o'r Bwrdd (yn arsylwi)
Neil Stoodley (gadawodd am 13:02)	(NS)	Pennaeth Cyllid (ar gyfer eitem 3.3)
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Ochr Staff
Christopher Thomas	(CT)	Pennaeth Gweithrediadau, Tîm Diogelu Iechyd (ar gyfer eitem 3.4)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd



Reanne Reffell	(RR)	Rheolwr Llywodraethu a Pholisi'r Bwrdd (Ysgrifenyddiaeth)
Stefanie Humphries	(SH)	Swyddog Cymorth y Bwrdd (Ysgrifenyddiaeth)
Ymddiheuriadau:		
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Elisabeth Evans	(EE)	Cynrychiolydd Ochr Staff
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Zoe Pietrzak	(ZP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad

Dechreuodd y cyfarfod am 11:45

ICC 2026.07.30/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
Croesawodd CJ bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwyllo'r trafodion ar-lein.	
Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau a restrir uchod.	
ICC 2026.07.30/2	Datganiadau o Fuddiant
Gofynnodd CJ am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.	
Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill.	
ICC 2026.07.30/3	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
ICC 2026.07.30/3.1	Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd TC Adroddiad y Prif Weithredwr a thynnodd sylw at y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol diweddar yng Ngogledd Cymru, a roddodd gyfle i staff ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r Bwrdd. Diolchodd i'r holl gydweithwyr a oedd ynghlwm â threfnu'r digwyddiad ac arddangos gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.	
Adroddodd TC ei bod wedi mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ac Iechyd y Cyhoedd. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar uchelgais Llywodraeth Cymru i gryfhau atal ar draws pob maes, a byddai cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu pellach yn cael eu harchwilio.	
Nododd TC y cynadleddau staff a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Llandudno ym mis Gorffennaf, a fynychwyd gan fwy na 400 o staff. Roedd y ddau ddigwyddiad yn cynnwys cyflwyniad gan Steve Gilbert, a rannodd ei brofiad personol o iechyd meddwl a llesiant. Diolchwyd i'r holl gydweithwyr a oedd yn rhan o drefnu a chyflwyno'r cynadleddau.	
Tynnodd TC sylw hefyd at waith i wella brechu teg ledled Cymru. Nododd fod dysgu o bandemig COVID-19 wedi atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio data i nodi anghydraddoldebau yn y nifer sy'n derbyn brechlynnau a chefnogi ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer poblogaethau agored i niwed.	



Llongyfarchodd TC Emily Van de Venter a Lewis White ar dderbyn cydnabyddiaeth broffesiynol drwy Wobr Sarah Stewart Brown am Iechyd Meddwl y Cyhoedd a phenodi'n Athro Seicoleg Feddygol yn y drefn honno. Nododd fod y cyflawniadau hyn yn adlewyrchu rhagoriaeth unigol a chyfraniad y Sefydliad at waith iechyd cyhoeddus a gwyddonol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Rhoddodd PV y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU. Dywedodd fod adroddiad Modiwl 5 ar gaffael ar gyfer y pandemig wedi'i gyhoeddi ar 14 Gorffennaf 2026 a byddai'n cael ei adolygu gan dimau perthnasol i nodi unrhyw wersi i'r Sefydliad. Nododd fod argymhellion yr adroddiad wedi'u cyfeirio'n bennaf at Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Hefyd, dywedodd PV fod disgwyl adroddiad Modiwl 6, sy'n ymwneud â'r sector gofal, yn ddiweddarach yn 2026.

Rhoddodd TC y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am newidiadau sefydliadol diweddar sy'n effeithio ar nifer o gyfarwyddiaethau ac Uned Fusnes y Bwrdd. Dywedodd y byddai'r Gyfarwyddiaeth Sgrinio Poblogaeth ac Ansawdd newydd yn cael ei sefydlu o 1 Hydref 2026, gyda CB wedi cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros dro am Wasanaethau Sgrinio o 28 Gorffennaf 2026.

Byddai'r Gyfarwyddiaeth newydd yn dwyn ynghyd y Gwasanaethau Sgrinio, Ansawdd a Llywodraethu Clinigol, a'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, tra byddai Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Heintiau ar wahân yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd, atal heintiau, parodrwydd, ac iechyd yr amgylchedd. Roedd ymgysylltiad staff yn parhau i gefnogi gweithredu'r trefniadau newydd.

Diolchodd TC i MK am ei arweinyddiaeth o ran gwasanaethau sgrinio a chydabu ei gyfraniad sylweddol at ddatblygu a chyflwyno rhaglenni sgrinio ledled Cymru. Diolchodd TC i CB hefyd am gymryd cyfrifoldeb gweithredol dros y Gwasanaethau Sgrinio.

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr ac Adroddiadau'r Gyfarwyddiaeth a chymerodd **sicrwydd** o'r adroddiadau a'r drafodaeth yn y cyfarfod.

ICC 2026.07.30/3.2

Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd

Rhoddodd IB drosolwg cynhwysfawr i'r Bwrdd o'r sefyllfa ddiweddaraf ym maes iechyd y cyhoedd, gan dynnu ar y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym, a oedd yn dwyn ynghyd ddangosyddion allweddol ar draws iechyd y boblogaeth, canlyniadau, anghydraddoldebau a pherfformiad systemau.

Nododd fod y penderfynyddion ehangach o ran iechyd wedi aros yn gymharol sefydlog, er bod pwysau cost byw yn parhau i effeithio ar y boblogaeth heb unrhyw newidiadau sylweddol mewn mesurau sy'n ymwneud ag amodau'r farchnad lafur, lles meddyliol nac ymddygiadau iach a welwyd ers yr adroddiad diwethaf.

Er nad oedd data marwolaethau wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol a oedd angen sylw arbennig, cynghorodd IB y Bwrdd y byddai dadansoddi canlyniadau iechyd yn parhau, yn ogystal â monitro effaith ffactorau amgylcheddol diweddar gan gynnwys y tywydd poeth diweddar.



Nododd y Bwrdd y gostyngiad parhaus mewn llwybrau atgyfeirio-i-driniaeth a oedd yn fwy na 36 wythnos. Er eu bod yn cydnabod cynnydd, roeddent yn cydnabod nad oedd y gwelliannau gyda'r amseroedd aros hiraf o reidrwydd yn adlewyrchu gwelliannau cyfatebol ar draws pob llwybr cleifion a bod angen gwaith pellach i wella mynediad at ofal parhaus. Nododd y Bwrdd fod y Sefydliad yn cefnogi gwaith gyda'r Prif Swyddog Meddygol a oedd yn ymwneud â disgwyliad oes iach ac amseroedd aros fel rhan o weithgarwch gwella ehangach.

Nododd y Bwrdd fod lefelau ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi sefydlogi yn dilyn cyfnod parhaus o ddirywiad a nododd ymhellach fod cyfraddau imiwneiddio plant yn parhau i fod islaw'r lefelau targed dymunol, bod gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran derbyn brechlynnau trwy ymyriadau wedi'u targedu a gwell defnydd o ddata.

Rhoddodd MK y wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion o Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a nododd, er bod nifer yr achosion a gadarnhawyd a'r marwolaethau cysylltiedig yn parhau i fod yn sylweddol, fod yr achosion wedi parhau i gael eu cyfyngu i raddau helaeth o fewn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt oherwydd trefniadau olrhain cysylltiadau effeithiol. Adroddodd fod treialon brechlyn yn parhau a bod y Sefydliad yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y DU i fonitro unrhyw risgiau posibl i Gymru. Nid oeddent wedi nodi unrhyw risg uniongyrchol.

Atgoffodd MK y Bwrdd o effaith y tywydd poeth a'r tanau gwyllt diweddar ledled Cymru, roedd y Sefydliad wedi parhau i ddarparu cyngor iechyd cyhoeddus yn ymwneud â dod i gysylltiad â mwg a diogelu iechyd ac wedi cefnogi'r trefniadau ymateb amlasiantaeth. Nododd fod llawer o'r tanau'n dechrau lleihau a bod trefniadau parodrwydd yn parhau ar waith i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Trafodwyd effeithiau posibl gwres eithafol ar iechyd, gan gynnwys marwolaethau gormodol a'r effeithiau ar boblogaethau agored i niwed. Awgrymodd y dystiolaeth sydd ar gael y gallai cyfnodau o dywydd poeth gyflymu marwolaethau ymhlith y rhai sydd eisoes yn agosáu at ddiwedd eu hoes, a byddai dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal wrth i ddata ychwanegol ddod ar gael. Roedd y Ganolfan Wylidwriaeth ar gyfer Clefydau Heintus yn adolygu effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau tywydd arwyddocaol yn rheolaidd a byddai unrhyw bryderon a nodwyd yn cael eu hadrodd drwy drefniadau sefydledig.

Trafododd TR yr angen i gryfhau dealltwriaeth o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres ac effeithiau ehangach newid hinsawdd ar wasanaethau iechyd a gofal. Nododd CB ac SA gynllunio a gwaith cydweithredol parhaus gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys ystyried grwpiau agored i niwed megis preswylwyr cartrefi gofal ac unigolion sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y Bwrdd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi staff sy'n gweithio mewn amodau amgylcheddol heriol.

Ystyriodd y Bwrdd yr Adroddiad Trosolwg Iechyd Cyhoeddus Diweddaraf a chymerodd **sicrwydd** o'r wybodaeth a ddarparwyd a **nododd** y diweddariadau a gyflwynwyd.

ICC 2026.07.30/3.3

Adroddiad Perfformiad Integredig ac Adroddiadau Cyllid Mis 3

Cyflwynodd NJ ac NS yr Adroddiad Perfformiad Integredig a'r adroddiad Cyllid, gan gynghori bod yr adroddiad bellach yn ymgorffori adrodd yn erbyn camau galluogi



Ysgrifennydd y Cabinet ac yn rhoi trosolwg o berfformiad sefydliadol yn erbyn dangosyddion allweddol.

Nododd NJ fod absenoldeb salwch yn parhau uwchlaw'r targed, tra bod cyfraddau gwerthuso staff ychydig islaw'r targed a bod cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn parhau uwchlaw'r targed. Trafododd NL fuddsoddiadau mewn gwaith atal, gallu rheolwyr a hyfforddiant risg, gan nodi'r nod o leihau gwariant ar staff asiantaeth, yn enwedig mewn meysydd gweinyddol a chlerigol.

Nododd CB y galw cynyddol am wasanaethau Llywodraethu Gwybodaeth ac amlygodd PV ostyngiad yn nifer y polisïau corfforaethol sydd wedi mynd heibio'r dyddiad adolygu.

Nododd NJ heriau parhaus o fewn rhaglenni sgrinio'r fron, y coluddyn a llygaid diabetig. Tynnodd MK sylw at welliannau mewn cydymffurfiaeth â dulliau meithrin samplau gwaed yn lleol a dywedodd fod gwaith yn parhau gyda Byrddau Iechyd a darparwyr cludo i fynd i'r afael ag oedi mewn amseroedd casglu samplau.

Tynnodd SA sylw at waith sydd ar y gweill i leihau ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â gwasanaethau heintiau a defnydd gwrthficrobaidd, a nododd waith parhaus yn ymwneud ag iechyd a thai a gweithgaredd dylanwad polisi ehangach.

Tynnodd JM sylw'r Bwrdd at welliannau mewn canlyniadau rhoi'r gorau i ysmegu, nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n cael mynediad at gymorth i roi'r gorau i ysmegu, a pherfformiad cryf yn erbyn mesurau sy'n cefnogi iechyd a lles plant.

Trafododd y Bwrdd rwystrau i gyfranogiad a chyfraddau cwblhau o fewn y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). Amlinellodd JM ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltiad â'r rhaglen a dywedodd fod gwaith ar y gweill i ddeall dylanwadau ymddygiadol yn well a chryfhau modelau cyflawni lleol. Cytunodd Aelodau'r Bwrdd fod y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) yn parhau i fod yn rhaglen atal bwysig ac roeddent yn cydnabod yr angen am gynnig gweithgarwch corfforol cymunedol ehangach ledled Cymru.

Rhoddodd NJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan nodi bod 85% o gamau gweithredu'r sefydliad ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Roedd cerrig milltir ambr a choch yn adlewyrchu dibyniaethau allanol, penderfyniadau tactegol mewnol a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru i raddau helaeth. Tynnodd NJ sylw hefyd at gwblhau rhaglen llety Gogledd Cymru yn llwyddiannus a lansio gwefan newydd y Sefydliad.

Nododd TC, gan fod Llywodraeth newydd Cymru yn parhau o fewn ei 100 diwrnod cyntaf, y gallai datblygiadau polisi pellach olygu bod angen mireinio cynllun tair blynedd y Sefydliad.

Holodd TR am y cynnydd a wnaed i wella cyfleusterau ar draws ystâd y Sefydliad. Cydnabu MK heriau hirdymor o ran llety labordy, a nododd fod yr angen am strategaeth ystadau a labordy tymor hwy yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod yn addas ar gyfer gofynion gwasanaeth yn y dyfodol, gan gynnwys technolegau newydd ac awtomeiddio. Nododd y byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i fesurau tymor byr i liniaru effaith tymereddau eithafol ar staff a gwasanaethau.



Nododd NE oedi i garreg filltir a adroddwyd yn Atodiad A a pherfformiad cynllunio swyddi ymgynghorwyr. Mewn ymateb, amlinellodd MK y gefnogaeth a ddarperir, gan nodi bod gwaith ar y gweill ar draws GIG Cymru i sefydlu dull cyson o adrodd a mesur cynllunio swyddi ymgynghorwyr.

Gwnaeth NJ sylwadau ar bwysigrwydd strategol cynllunio swyddi wrth sicrhau bod blaenoriaethau sefydliadol yn cael eu cyflawni. Awgrymodd CJ ystyried cynllunio'r gweithlu ymhellach mewn Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: NL

Cyflwynodd NS y sefyllfa ariannol, gan nodi bod rhagolygon refeniw a chyfalaf yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a chadarnhaodd fod perfformiad taliadau'r sector cyhoeddus yn parhau i ragori ar y targedau. Nododd hefyd fod pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth Sgrinio wedi'i lofnodi ac yn aros am gymeradwyaeth derfynol y bwrdd iechyd.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o Adroddiad Cyllid Mis 3 a'r Adroddiad Perfformiad Integredig a'r trafodaethau.

Gadawodd NS y cyfarfod am 13:02.

ICC 2026.07.30/3.4

Diweddariad ar Gynlluniau Gwella Rhaglenni Sgrinio

Cyflwynodd MK yr adroddiad ar gynlluniau gwella wedi'u diweddarau ar gyfer rhaglenni sgrinio'r fron, y coluddyn a llygaid diabetig.

Dywedodd MK fod y cynlluniau wedi'u gwella ers eu cyflwyno i'r Bwrdd yn flaenorol trwy gynnwys llwybrau perfformiad, a oedd yn rhoi mwy o welededd i'r llwybr arfaethedig yn ôl at y perfformiad targed. Tynnodd sylw at y ffaith bod y cynlluniau'n parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau perfformiad mwyaf arwyddocaol ar draws pob rhaglen.

Rhaglen Sgrinio'r Fron

Amlinellodd GB y meysydd ffocws allweddol o fewn Cynllun Gwella Bron Brawf Cymru, gan gynnwys amseroldeb darllen, amseroedd aros clinigau asesu, gweithredu argymhellion yn deillio o adolygiad Bron Brawf Cymru, cyflawni'r safon hyd cylch 36 mis, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y nifer sy'n cael eu sgrinio. Tynnodd GB sylw at heriau o ran y gweithlu a chapasiti o fewn y Byrddau Iechyd fel prif faes ffocws, yn enwedig o ran capasiti llawfeddygol.

Tynnodd TC sylw at heriau parhaus yng Ngogledd Cymru, lle roedd argaeledd capasiti asesu gan ymgynghorwyr o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i effeithio ar berfformiad. Dywedodd fod nifer o drafodaethau uwchgyfeirio wedi'u cynnal a bod gohebiaeth bellach wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar i atgyfnerthu pryderon ynghylch yr effaith ar ddarparu gwasanaethau.

Croesawodd TR gynnwys llwybrau a cheisiodd sicrwydd ynghylch y rhagdybiaethau sy'n sail i'r gwelliannau disgwylidig. Esboniodd GB fod y gwelliannau a ragwelwyd yn adlewyrchu adferiad tymhorol yn dilyn cyfnodau gwyliau blynyddol a chyflwyno capasiti darllen ychwanegol a chlinigau dan arweiniad radiolegwyr.



Cydnabu NE y gwaith sylweddol a wnaed ond gwnaeth y sylw, er bod y camau gweithredu a'r llwybrau arfaethedig yn rhoi mwy o sicrwydd nag o'r blaen, bod angen tystiolaeth bellach i ddangos sut y byddai'r ymyriadau arfaethedig yn cyflawni maint y gwelliant a ragwelwyd. Cyngorodd MK nad oedd y llwybrau gwella yn llinol er mwyn caniatáu amserlenni realistig a chynnwys naratif i'w hesbonio. Cytunodd TC y dylai adroddiadau yn y dyfodol gryfhau'r cysylltiad rhwng camau gwella penodol ac enillion perfformiad rhagamcanol i ddangos sut y byddai llwybrau'n cael eu cyflawni.

Rhaglen Sgrinio'r Coluddyn

Cyflwynodd GB y Cynllun Gwella Sgrinio'r Coluddyn, a oedd yn parhau i ganolbwyntio ar amseroldeb claf yn derbyn colonosgopi sgrinio o fewn 28 niwrnod yn dilyn canlyniad FIT positif. Amlinellodd y gwaith cydweithredol sy'n cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd (megis y Rhaglen Gwella Colonosgopi Sgrinio'r Coluddyn) i fynd i'r afael â chyfyngiadau ar gapasiti'r gweithlu, gwella perfformiad llwybrau gofal, a lleihau dibyniaeth ar atebion dros dro megis contractio mewnol. Adroddodd, er bod perfformiad yn parhau i fod islaw'r safon ofynnol, fod gwelliannau eisoes yn cael eu gweld o ganlyniad i'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd.

Ailadroddodd TC bryderon hirdymor y Bwrdd ynghylch amseroedd aros am colonosgopi. Nododd fod perfformiad ar ddechrau'r llwybr yn parhau'n gryf ond bod oedi wrth gynnal colonosgopi diagnostig yn parhau i greu risg sylweddol i ddiagnosis ac atal amserol. Cyngorodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i uwchgyfeirio pryderon yn genedlaethol, a thynnodd sylw at yr angen i arallgyfeirio'r gweithlu endosgopi trwy ddatblygu endosgopyddion clinigol ochr yn ochr â modelau staffio meddygol presennol.

Ceisiodd TR sicrwydd y byddai'r rhaglen gwella bresennol yn cyflawni gwelliannau ystyrlon o fewn amserlen fer. Dywedodd MK fod y Rhaglen Gwella Colonosgopi Sgrinio'r Coluddyn yn creu ymgysylltiad cadarnhaol ar draws byrddau iechyd ac yn dechrau cyflawni gwelliannau mesuradwy, er y byddai angen buddsoddiad tymor hwy ar gyfer rhai elfennau, yn enwedig datblygu'r gweithlu. Ychwanegodd GB fod y rhaglen yn adeiladu ar sawl blwyddyn o ymgysylltu blaenorol a bod y trefniadau cydweithredol yn helpu i adeiladu momentwm a chefnogi hyder mewn gwelliannau yn y dyfodol.

Sgrinio Llygaid Diabetig

Adroddodd HL fod y Cynllun Gwella Sgrinio Llygaid Diabetig yn parhau i ganolbwyntio ar wella cwmipas sgrinio a bod y ddarpariaeth gyffredinol yn parhau ar y trywydd iawn. Ymhlith y cyflawniadau allweddol roedd capasiti cynyddol y clinig, cwblhau delweddu retinol ar gyfer gwerthuso camera, goruchwyliaeth gryfach o'r llwybr galw'n ôl risg isel, a gwelliannau cynaliadwy yn y defnydd o glinigau.

Tynnodd sylw at sawl maes â sgôr ambr, gan gynnwys oedi i adroddiad gwerthuso'r camera a oedd yn effeithio ar amserlenni gweithredu, gwaith sicrwydd sydd heb ei gwblhau ar y llwybr galw'n ôl risg isel, diwylliant y gweithlu a heriau absenoldeb oherwydd salwch, ac ymchwiliad i broblem bosibl gyda'r enwadur metrig cwmipas a allai fod wedi effeithio ar berfformiad a adroddwyd.

Croesawodd NE y cynnydd a wnaed a nododd y gwelliannau gweithredol sylweddol a wnaed, ond cwestiynodd a fyddai'r camau gweithredu a nodwyd yn ddigonol i gyflawni'r llwybr cynnydd disgwylidig.

Cytunodd IB i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad i fater yr enwadur, a rhoddodd HL sicrwydd bod yr ymchwiliad eisoes ar y gweill.

Pwysleisiodd TC yr angen i arallgyfeirio'r model darparu os oedd y gwasanaeth am ymateb yn effeithiol i'r galw cynyddol, ac awgrymodd y byddai angen i atebion yn y dyfodol gynnig mwy o hyblygrwydd a hygyrchedd i ddefnyddwyr yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar fodelau presennol. Cytunodd HL y gallai'r diffyg gwelliant yn y ddarpariaeth, er gwaethaf lefelau gweithgarwch uchel, awgrymu nad oedd blaenoriaethu apwyntiadau yn gweithio fel y bwriadwyd a nododd y byddai hyn yn cael ei archwilio ymhellach gyda'r tîm perthnasol.

Pwysleisiodd KY bwysigrwydd deall pryderon staff a chynnwys staff mewn prosesau newid. Cytunodd HL, gan nodi'r angen i fynd i'r afael ag ymddygiadau amhriodol a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar dimau i wneud hynny.

Cydnabu MK gyfraniad y timau perthnasol a chroesawodd Christopher Thomas i'w rôl fel Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Diogelu Iechyd. Yn yr un modd, diolchodd CJ i'r timau am eu gwaith ac ansawdd y papurau a gyflwynwyd, gan bwysleisio'r angen i gryfhau sicrwydd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r cynnydd a'r llwybrau a amlinellwyd ym mhob cynllun gwella penodol i'r rhagen.

Egwyl

ICC 2026.07.30/3.5

Diweddariad ar Ddigwyddiad Iechyd Rhywiol

Cyflwynodd MK yr adroddiad, gan nodi bod y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn parhau i oruchwylio gweithgaredd ymchwilio, lliniaru a sicrhau. Dywedodd fod yr ymateb yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phryderon diogelu yn ymwneud â phlant dan 16 oed a sicrhau bod unigolion sy'n byw gyda HIV wedi cael profion Hepatitis C priodol.

Roedd adolygiadau o ddiogelu Carfannau 1 a 2 wedi'u cwblhau, heb unrhyw bryderon difrifol wedi'u nodi yng Ngharfan 1 a dysgu o'r ddau adolygiad wedi'i rannu â byrddau iechyd. Cytunwyd ar ddull cymesur, yn seiliedig ar risg, ar gyfer adolygu achosion hanesyddol o fewn Carfan 3.

Darparwyd diweddariad hefyd ar y ffrwd waith profi Hepatitis C, lle'r oedd gweithgaredd dilynol ar gyfer unigolion yr effeithiwyd arnynt bron â'i gwblhau a disgwylir adroddiad terfynol yn fuan. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau trefniadau prosesu data trwy gynyddu awtomeiddio, tra bod y Grŵp Cyngori Arfer Gorau ac adolygiad allanol annibynnol wedi cychwyn. Disgwylid adroddiad adolygu drafft ym mis Hydref 2026, gyda'r adroddiad terfynol i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2027.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch datblygiad a chynnydd rheolaeth y digwyddiad iechyd rhywiol, a'r camau gweithredu i adolygu a gwella cyflenwi gwasanaethau.



ICC 2026.07.30/3.6	Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau
Cyflwynodd CJ yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r gweithgaredd a wnaed gan Bwyllgorau'r Bwrdd ers 28 Mai 2026. Nododd fod pob Pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi rhoi sicrwydd o fewn eu cylchoedd gwaith priodol. Tynnodd CJ sylw at y ffaith bod y Cynllun Ymateb i Argyfwng wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2026. Cymerodd y Bwrdd sicrwydd o'r gwaith a wnaed gan ei bwyllgorau.	
ICC 2026.07.30/3.7	Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
Cyflwynodd CB y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a oedd yn rhoi trosolwg o brif risgiau'r sefydliad a'r camau a gymerir gan y Tîm Arweinyddiaeth i'w rheoli. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Gofrestr yn cynnwys un ar ddeg o risgiau, heb unrhyw risgiau newydd wedi'u hychwanegu yn ystod y cyfnod adrodd, a dywedodd fod y digwyddiad gyda'r Gwasanaeth Iechyd Rhywiol wedi'i uwchgyfeirio i'r Gofrestr i adlewyrchu ei arwyddocâd strategol a'i reolaeth barhaus. Adroddodd CB fod dwy risg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chyfraddau ymateb gwyliadwriaeth sy'n gostwng wedi'u cau yn dilyn gweithredu mesurau lliniaru yn llwyddiannus. Nododd fod craffu gwell gan y Tîm Arweinyddiaeth wedi cryfhau perchnogaeth weithredol o risgiau, camau lliniaru a threfniadau sicrwydd. Rhoddodd MK y wybodaeth ddiweddaraf am y risg sy'n ymwneud â chyflwr unedau sgrinio symudol Bron Brawf Cymru. Dywedodd fod y lliniariadau dros dro a gyflwynwyd yn dilyn yr ymchwiliad i halogiad llwch wedi atal methiannau offer a digwyddiadau halogiad pellach. Roedd asesiadau manwl o bob uned bellach wedi'u cwblhau a byddent yn llywio rhaglen adnewyddu i fynd i'r afael â llwch yn treiddio a phroblemau cynnal a chadw eraill, gan gynnwys diffygion sy'n gysylltiedig â dŵr. Nododd fod materion cytundebol yn parhau i gael eu hystyried ac y byddai'r risg yn parhau i gael ei monitro. Trafododd y Bwrdd yr heriau ehangach sy'n gysylltiedig â seilwaith sy'n heneiddio a rheoli ystadau, yn enwedig lle darperir gwasanaethau o safleoedd sy'n eiddo i bartneriaid, a phwysleisiodd yr angen i ddatblygu atebion hirdymor wrth gynnal mesurau ymarferol i amddiffyn staff, offer a chyflenwi gwasanaethau yn y tymor byr. Nododd y Bwrdd y cysylltiad rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Strategol a chymerodd sicrwydd bod risgiau'n parhau i gael eu monitro, eu hadolygu a'u rheoli'n weithredol trwy drefniadau llywodraethu sefydledig.	
ICC 2026.07.30/4	Eitemau i'w Cymeradwyo
ICC 2026.07.30/4.1	Cofrestr Risgiau Strategol
Cyflwynodd CB yr adroddiad a myfyriodd ar ddatblygiad sylweddol y Gofrestr Risgiau Strategol, gan nodi bod y gofrestr wedi aeddfedu'n sylweddol drwy drafodaethau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth. Diolchodd i aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr am eu hymgyssylltiad parhaus wrth gryfhau dull y sefydliad o reoli risgiau strategol.	

Darparodd CB ddiweddariadau yn erbyn pob un o'r Risgiau Strategol, gan dynnu sylw at:

Risg Strategol 1 – Gwella Disgwyliad Oes Iach

Dywedodd CB fod y sgôr risg yn aros yn 9 yn erbyn sgôr darged o 6. Byddai angen mireinio'r risg ymhellach i adlewyrchu datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg. Esboniodd JM y byddai angen adolygu'r risg ymhellach i adlewyrchu datblygiadau megis Cymuned trwy Ddylunio, agenda iechyd ataliol y sefydliad a newidiadau polisi ehangach. Nododd fod llawer o'r ffactorau sy'n pennu disgwyliad oes iach y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac y dylai'r risg ganolbwyntio ar gyfraniad a dylanwad y sefydliad o fewn y system ehangach.

Risg Strategol 2 – Gallu a Chapasiti Sefydliadol

Tynnodd CB sylw at y sgorio diwygiedig a oedd yn adlewyrchu pryderon parhaus ynghylch capasiti, gallu, gwydnwch y gweithlu, diwylliant ac ymddygiad y sefydliad. Nododd hefyd y byddai angen ystyriaeth bellach ynghylch parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg yn y maes hwn.

Dywedodd NL fod gwaith pellach wedi'i wneud i gryfhau'r asesiad o'r risg a chadarnhaodd y byddai mireinio ychwanegol yn parhau yn dilyn trafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod y risg yn adlewyrchu heriau ehangach.

Risg Strategol 3 – Cyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad

Dywedodd CB fod y sgôr wedi aros yr un fath ac yn parhau i adlewyrchu heriau perfformiad gweithredol a phroblemau gwydnwch y gweithlu ar draws nifer o feysydd gwasanaeth. Adroddodd MK fod y risg yn parhau i adlewyrchu rhai heriau perfformiad gweithredol a meysydd o ddiffyg parhad gwasanaeth yn deillio o bwysau gweithredol.

Tynnodd SA sylw at waith sy'n cael ei wneud drwy Bolisi a Gwasanaethau Rhyngwladol a Heintiau, gan gynnwys gwaith i leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â gwasanaethau heintiau a defnydd gwrthficrobaidd. Nododd hefyd weithgarwch yn ymwneud ag iechyd a thai a gwaith dylanwad polisi ehangach, a oedd yn cefnogi cyflenwi yn erbyn blaenoriaethau sefydliadol ac a oedd yn cyfrannu at liniaru agweddau ar y risg.

Risg Strategol 4 – Newid Hinsawdd a Gwydnwch Amgylcheddol

Tynnodd CB sylw at y gwaith parhaus sy'n ymwneud â gwydnwch hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol a thynnodd sylw at effeithiau gweithredol cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol. Nododd SA y byddai'r sgorio'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau hinsawdd / tymheredd diweddar a'r effaith sy'n deillio o hynny. Hysbysodd MK y Bwrdd fod trafodaethau diweddar drwy Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd wedi nodi'r angen i gynyddu'r sgôr risg mewn adroddiadau yn y dyfodol i adlewyrchu pryderon cynyddol ynghylch cydnerthedd sefydliadol ac addasu i bwysau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Risg Strategol 5 – Trawsnewid Sefydliadol a Gallu Digidol

Adroddodd CB fod gwaith sylweddol wedi'i wneud i fireinio Risg Strategol 5. Cyngorodd fod y risg bellach yn adlewyrchu gallu ehangach y sefydliad i gyflawni trawsnewidiad a newid, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar faterion digidol a materion sy'n gysylltiedig â data. Gwnaeth IB sylw bod y risg ddiwygiedig yn disgrifio her trawsnewid y sefydliad yn well ac yn adlewyrchu'r angen i gryfhau'r gallu a'r capasiti i gyflawni newid. Nododd y byddai'r

risg a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i esblygu wrth i drefniadau sefydliadol aeddfedu.

Wrth fyfyrir ar y Gofrestr Risgiau Strategol, nododd CB fod rhai elfennau wedi dod yn fwyfwy manwl ac yn ymddangos yn gorgyffwrdd â chynllunio sefydliadol a gweithgaredd rheoli perfformiad. Dywedodd CB, yn dilyn symud Risg i Ysgrifennydd y Bwrdd, her allweddol fyddai mireinio diweddariad y Cyfarwyddwr Gweithredol i'w wneud yn fwy cryno ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen. Cytunodd TC fod sylwadau'r Cyfarwyddwr Gweithredol wedi'u bwriadu'n wreiddiol i ddarparu datganiad sicrwydd cryno i'r Uwch Berchennog Risgiau. Awgrymodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio'n gliriach ar lefel y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu, cynnydd wrth liniaru risgiau ac unrhyw faterion sylweddol sydd angen sylw'r Bwrdd, yn hytrach na disgrifiadau manwl o weithgarwch.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **Cymeradwyo'r** ceisiadau newid i'r Risgiau Strategol,
- Cymryd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Strategol o fewn y Sefydliad.

ICC 2026.07.30/4.2

Cofnodion a Log Camau Gweithredu o Gyfarfodydd y Bwrdd ar 28 Mai, 25 Mehefin a 7 Gorffennaf 2026 a Nodiadau o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 14 Gorffennaf 2026

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mai, 25 Mehefin a 7 Gorffennaf 2026, a'r Nodiadau o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 14 Gorffennaf 2026 fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd.

Ystyriodd y Bwrdd y camau gweithredu agored ar y Log Camau Gweithredu a chymeradwyodd gau un cam gweithredu ar y log.

ICC 2026.07.30/4.3

Fframwaith Cydweithio

Cyflwynodd PV yr adroddiad a dywedodd fod y Fframwaith Cydweithio yn ddogfen lywodraethu allweddol sy'n nodi sut y sefydlodd, rheolodd a monitrodd Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau partneriaeth a gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill.

Dywedodd PV fod yr adolygiad wedi cynnwys ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sefydliad i ddeall sut roedd y fframwaith yn gweithredu'n ymarferol ac yn nodi cyfleoedd i wella. O ganlyniad, roedd y fframwaith diwygiedig yn ymgorffori nifer o welliannau, gan gynnwys gofynion cryfach yn ymwneud â diwydrwydd dyladwy, diogelu data, eiddo deallusol a rheoli risg. Nododd fod trafodaethau'r Tîm Gweithredol wedi atgyfnerthu pwysigrwydd ystyried effeithiau a chanlyniadau bwriadedig fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy ac adlewyrchu'r rhain o fewn trefniadau gweithio ar y cyd. Roedd y fframwaith hefyd wedi'i ddiweddararu i egluro rôl y Tîm Arweinyddiaeth wrth adolygu trefniadau o'r fath.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Cydweithio diwygiedig.

ICC 2026.07.30/5

Eitemau i'w Nodi

ICC 2026.07.30/6.1

Adroddiad Cadeiryddion Preifat (28 Mai 2026)

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeiryddion Preifat.

ICC 2026.07.30/6.2

Blaengynllun y Bwrdd



Nododd y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.	
ICC 2026.07.30/6.3	Papurau Preifat y Bwrdd
Nid oedd unrhyw bapurau o agenda Preifat y Bwrdd i'w cyhoeddi.	
ICC 2026.07.30/7	Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf
Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.	
Unrhyw Fater Arall: Dim.	
Cyfarfodydd ffurfiol nesaf y Bwrdd: 24 Medi 2026	
Daeth y cyfarfod i ben am 14:15	